# Canolfan Iaith Newydd i Brestatyn





**Canolfan Iaith Clwyd, Dinbych**

**Canolfan Iaith 'Y Tanerdy', Llanrwst**

Fel rhan o'r cynlluniau i amddiffyn a datblygu'r Gymraeg yn Sir Ddinbych mae Popeth Cymraeg yn bwriadu agor Canolfan Iaith newydd ym Mhrestatyn ar gyfer oedolion sy'n dysgu Cymraeg. Mae gan Popeth Cymraeg nifer fawr o ddysgwyr yn yr ardal eisoes a'r bwriad yw agor canolfan bwrpasol ar eu cyfer yn hytrach na'u bod yn mynychu gwersi mewn nifer o leoliadau gwasgaredig, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.



Yn ôl Ioan Talfryn, Prif Weithredwr Popeth Cymraeg "Mae hi wedi bod yn fwriad gynnon ni ers nifer o flynyddoedd i agor canolfan iaith yng Ngogledd Sir Ddinbych. Mae'r arolwg presennol o sefyllfa'r Gymraeg yn y sir a'r nifer dda o ddysgwyr sydd yn mynychu'n dosbarthiadau yma yn golygu mai rwan ydy'r amser delfrydol i fwrw ymlaen gyda'r cynllun. Mae Prestatyn yn lle bywiog iawn ac mae wedi gweld llawer o ddatblygiadau positif iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bydd yn lleoliad perffaith ar gyfer ein canolfan newydd."





Mae Popeth Cymraeg wedi derbyn cefnogaeth frwd gan bob plaid wleidyddol i'r ymgyrch i sefydlu'r ganolfan newydd gan gynnwys Ann Jones AC (Llafur), Antoinette Sandbach AC (Ceidwadwyr), Llŷr Huws Gruffydd AC (Plaid Cymru), Aled Roberts AC (Democratiaid Rhyddfrydol a llefarydd ei blaid ar Y Gymraeg) a Chris Ruane AS. Mae hefyd wedi derbyn cefnogaeth yr Aelodau Cynulliad sydd â'u swyddfeydd yn Nyffryn Clwyd i'w ddymuniad i fod yn ddarparwr Cymraeg I Oedolion cyflawn yn y dyfodol yn dilyn y broses ailstrwythuro cenedlaethol sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd. Maent wedi ysgrifennu at Huw Lewis, y Gweinidog Addysg, i fynegi eu cefnogaeth i Popeth Cymraeg.









Yn ôl Dyfrig Berry, Cadeirydd Cyfarwyddwyr Popeth Cymraeg “Nôl ym 1988 mi ddechreuon ni ymgyrch i sefydlu Canolfan Iaith sirol gyntaf Cymru yn Ninbych, Canolfan Iaith Clwyd. Bum mlynedd yn ôl agorodd Popeth Cymraeg ei hail ganolfan yn Llanrwst i wasanaethu Dyffryn Conwy. Bydd sefydlu’r drydedd Ganolfan hon yn benllanw dros 25 mlynedd o weithgarwch er lles dysgwyr y rhan hon o Gymru.”



Yn ôl Mary Steel, Is-gadeirydd Popeth Cymraeg ac un o’r dysgwyr sy’n rhan o’r bwrdd cyfarwyddwyr “Dw i’n hapus iawn o fod yn rhan o’r datblygiad yma. Wnes i ddysgu Cymraeg yng Nghanolfan Iaith Clwyd yn Ninbych ychydig flynyddoedd yn ôl ac mae cael canolfan iaith bwrpasol ar garreg eich drws yn rhywbeth pwysig iawn.”



Yn ôl Rita Roberts, un arall o’r dysgwyr sy’n gyfarwyddwr gyda’r cwmni “Fel dysgwraig dw i’n teimlo bod Popeth Cymraeg yn gorff unigryw, mae o wedi cael ei greu gan y gymuned leol, yn ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg, i’n gwasanaethu ni’r dysgwyr. I rai sefydliadau mae dysgu Cymraeg i Oedolion yn rhan fach iawn o’r hyn maen nhw’n ei wneud ond dyna unig bwrpas Popeth Cymraeg, wrth gwrs.”



Mae Frances Jones, tiwtor-drefnydd Sir Ddinbych yn falch iawn o weld y gefnogaeth eang sydd yna i’r cynllun. “Prestatyn ydy un o’n hardaloedd cryfaf o safbwynt nifer dysgwyr a byddai cael canolfan iaith yn y dref yn hwb mawr i’r Gymraeg yma.”



Yn ôl Cefin Campbell, sy’n gwneud yr arolwg o sefyllfa’r Gymraeg yn Sir Ddinbych ar gyfer y Cyngor Sir. “Dw i’n croesawu’r bwriad i agor canolfan iaith yn ardal Prestatyn. Bydd hyn o fudd mawr i’r iaith ar hyd y glannau ac yn ddatblygiad o bwys strategol.



Mae Popeth Cymraeg wedi bod yn cydweithio eisoes ar y cynllun gyda swyddogion Cyngor Sir Ddinbych. Dywedodd y Cynghorydd Huw Jones, Aelod Arweiniol y Cabinet gyda chyfrifoldeb dros y Gymraeg ar y Cyngor Sir : "Rydym yn falch iawn o allu gweithio gyda Phopeth Cymraeg ar y ganolfan iaith newydd. Mae'r Cyngor wedi bod yn ystyried sut y gall hybu'r Gymraeg o fewn y sir, mewn ymateb i ganlyniadau'r cyfrifiad, ond hefyd mewn ymateb i ddatblygiadau parthed y Gymraeg yn genedlaethol. Mae llwyddiant ysgubol yr Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Ddinbych y llynedd wedi creu brwdfrydedd mawr i warchod y Gymraeg ac rydym yn falch iawn o weld datblygiad mor gadarnhaol all ddiwallu anghenion dysgwyr ar hyd y glannau."



“Bydd hyn yn hwb mawr i’r Gymraeg yn y dref” meddai’r Cynghorydd Sir a Thref Paul Penlington, Cadeirydd Y Grŵp Aelodau Sir ar gyfer Prestatyn sydd hefydd yn aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Y Llys, yr ysgol Gymraeg leol. “Dw i’n ddi-Gymraeg fy hun ond mae fy mhlant yn derbyn addysg Gymraeg. Dw i’n siwr y bydd y siaradwyr Cymraeg a’r gymuned leol ehangach yn gefnogol iawn i’r datblygiad arloesol hwn.”

Croesawyd y datblygiad yn frwd gan Heini Gruffudd, Cadeirydd *Dyfodol i'r Iaith* ac un fu'n ymgyrchu ers nifer o flynyddoedd dros agor mwy o ganolfannau iaith ar draws Cymru. "Mae sefydlu canolfannau Cymraeg yn rhoi'r cyfle gorau i ddysgwyr feistroli'r iaith a'i defnyddio. Mae gwaith Popeth Cymraeg yn ysbrydoliaeth a gwych gwybod y bydd gan y Gymraeg droedle ym Mhrestatyn. Rwy'n gobeithio y bydd fframwaith newydd cenedlaethol Cymraeg i Oedolion yn cefnogi canolfannau tebyg mewn rhannau eraill o Gymru."





Mae Ffred Ffransis, un o hoelion wyth Cymdeithas Yr Iaith, yn un o ddysgwyr cynhenid yr ardal ac mae yntau'n gefnogol iawn i'r fenter. "Pan ddysgais i Gymraeg yn Y Rhyl, roedd yn rhaid brwydro'n erbyn y lli gyda chefnogaeth cyfeillion a rhai athrawon ymroddedig. Mae sefydlu Canolfan Iaith yng ngogledd y sir yn rhan o broses o droi'r lli a'i wneud yn broses cwbl naturiol i drigolion lleol ddysgu'r iaith a'i defnyddio'n llawn mewn bywyd. Mae adennill y Gymraeg yn rhan o broses adennill ein hunaniaeth ac adfywio'n cymunedau. Mae cefnogwyr Clwb Peldroed Y Rhyl, ac yn ddiweddar Prestatyn hefyd, wedi ymfalchio wrth gario baner Cymru yn Ewrop. Rhan o'r un proses yw dysgu'r Gymraeg, a bydd agor y ganolfan yn gwneud hyn yn bosibiliad llawer mwy real i laweroedd."

Mae Ruth Williams, Prif Swyddog Menter Iaith Sir Ddinbych yn croesawu'r newyddion. Dywedodd "gyda chanran uchel o boblogaeth y Sir yn byw yn ardal y glannau, da yw clywed bod cynlluniau ar y gweill i wneud hi'n haws iddynt gael y cyfle i ddysgu'n hiaith. Hoffwn hefyd weld mwy o weithgareddau cymdeithasol, yn cael eu cynnal yn yr ardal i Gymry Cymraeg a dysgwyr, yn arbenning i bobl ifanc a theuluoedd, a 'dwi'n siwr y byddai Menter Iaith yn hapus iawn i gyd-weithio â'r ganolfan i ddatblygu cyfleoedd"

Menter Iaith Sir Ddinbych



Daeth cefnogaeth o du'r cwmni cynllunio ieithyddol Iaith sydd â syddfa yn Sir Ddinbych. Yn ôl Gareth Ioan, y Prif Weithredwr "Mae *IAITH: y ganolfan gynllunio iaith* yn falch iawn o gefnogi menter Popeth Cymraeg ym Mhrestatyn. Bydd yn gyfraniad cadarnhaol i gynnal ac adfywio'r Gymraeg yn Nyffryn Clwyd".

Mae Nia Parry, y gyflwynwraig deledu sy'n adnabyddus am ei rôl ar raglenni dysgwyr, yn gweld y datblygiad yn un pwysig iawn : "Mae'n newyddion hynod gyffrous bod y Ganolfan newydd yn agor ym Mhrestatyn. Mae presenoldeb Canolfan o'r fath nid yn unig yn bwysig o ran y ddarpariaeth ei hun ond y mae hefyd yn werthfawr fel 'ffenestr siop' i'r Gymraeg er mwyn codi proffil yr iaith yn y fro. Mae hefyd yn fan cyfarfod pwysig i ddysgwyr yr ardal gael dod ynghyd."



Rhown y gair olaf i Alun Rhys Jones, dysgwr o Brestatyn ac un o gystadleuwyr Cariad@iaith y llynedd.



"Mi fyddwn ni'n cael canolfan iaith newydd ym Mhrestatyn...! Wel, dyna newyddion gwych i mi.  Mae mor dda gwybod bod rhywun yn canolbwyntio ar y bobl sy'n byw yn nhrefi'r arfordir.

Dw i'n siwr y byddai digon o bobl leol yn hoffi dysgu Cymraeg - wel, fydd dim esgus rŵan... yn arbennig gan y bydd gynnon ni ganolfan reit ar garreg ein drws, yn fuan iawn. Mae gynnon ni lawer o fewnfudwyr o Loegr yn byw yn ardal Y Rhyl a Phrestatyn sydd ddim yn siarad yr iaith eto (er bod sawl un wedi ei dysgu, chwarae teg) , ond hefyd mae 'na lawer o bobl yma o dras Cymreig neu bobl sy'n hanner neu'n rhannol Gymreig, sydd wedi colli'r rhan fwyaf o'u mamiaith.  Efallai, yn eu calonnau, byddan nhw'n awyddus i ail-ddysgu Cymraeg.

Yn fy marn, er nad ydw i erioed wedi teimlo'n llai na Chymro cant y cant, dw i'n yn hollol siŵr fy mod i wedi ail-ddarganfod fy ngwreiddiau drwy'n heniaith, a rŵan, achos mod i hanner ffordd i fedru siarad Cymraeg bob dydd, dw i'n teimlo'n hyd yn oed yn agosach at fy nghyndadau

Bydd y Ganolfan Iaith newydd yma ym Mhrestatyn yn helpu dysgwyr yn aruthrol ac yn dod â mwy o flas Cymraeg yn ôl i'r gymuned arfordirol."

www.popethcymraeg.com

Ioan@popethcymraeg.com

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

CYMRAEG I OEDOLION
WELSH FOR ADULTS